

## OWEN, CHARLES (bu farw 1746), gweinidog ac athro Ymneilltuol

**Enw:** Charles Owen  
**Dyddiad marw:** 1746  
**Rhiant:** John Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog ac athro Ymneilltuol  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

brawd iau i [James Owen](#) - am ei dras, gweler yr ysgrif ar hwnnw. Yn 1691-2 yr oedd yn derbyn grantiau i'w gynnal yn academi Bethnal Green, dan Ker; bu wedyn dan addysg ei frawd yng Nghroesoswallt. Yr oedd yn weinidog yn Wrecsam yn 1695 a 1696 beth bynnag, ond ar 13 Ebrill 1697 ymddengys ei enw yn rhestr gweinidogion Lancashire. O 1699 hyd ei farwolaeth, 17 Chwefror 1746, bu'n weinidog Presbyteraidd Warrington. Cadwai yno ysgol yr oedd bri mawr iddi; yn 1728 (yng nghwmni Isaac Watts), cafodd radd D.D. gan Brifysgol Edinburgh. Sgrifennodd lawer, y cwbl yn Saesneg (gweler y rhestr yn y *D.N.B.*), yn eu plith gofiant, 1709, i'w frawd enwog. Yn wahanol i hwnnw, yr oedd yn ddadleuwr gwleidyddol eiddgar; erlynwyd ef ar gyfrif un o'i bamffledau - yn ofer, ond costiodd yr achos lawer o arian iddo. Ystyrid ef yn un o gefnogwyr blaenaf y llinach Hanoferaidd yng ngogledd Lloegr.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

Alexander Gordon yn y *Oxford Dictionary of National Biography* ac yn *Llawysgrif o eiddo'r Presbyterian Board, a gyhoeddwyd gan Alexander Gordon dan y teitl Freedom after Ejection. A Review (1690–1692) of Presbyterian and Congregational Nonconformity in England and Wales, 1917* (mynegai)

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [11274876](#)

Wikidata: [Q20732701](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

